## P-04-341 Gwastraff a Llosgi

### Geiriad y Ddeiseb

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i:

1. adolygu'r Prosiect Gwyrdd, sy'n mynd yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru o ddarparu cyfleusterau yn lleol a chaniatáu i'n cynghorau ddewis eu systemau caffael eu hunain ar gyfer rheoli gwastraff a thechnoleg gwastraff;
2. adolygu'r arolwg diffygiol ar wastraff yng Nghymru a oedd yn rhoi dau ddewis yn unig i bobl ynghylch gwaredu gwastraff;
3. erbyn 2020, ei gwneud yn anghyfreithlon i losgi gwastraff y gellir ei ailgylchu gan y byddai hyn yn annog cynghorau i ailgylchu.

**Cynigwyd gan:** Terry Evans

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf:** 15 Tachwedd 2011

**Nifer y llofnodion:** 21 (Casglwyd deiseb gysylltiedig 13,286 o lofnodion hefyd)